

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid held  
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 9fed Hydref, 2023 at 2.00 pm**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Sir Ann Webb (Cadeirydd)  
Cynghorydd Sir Peter Strong (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: Louise Brown, Meirion Howells, David Jones,  
Su McConnel, Maria Stevens, Rachel Buckler, Tudor Thomas,  
Jill Bond and Alistair Neill

## **SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

John Pearson  
Amy Gullick

Rheolwr Democratiaeth Leol  
Swyddog Democratiaeth Leol

### **1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Nodwyd y dirprwyo dilynol dros Aelodau ar gyfer y cyfarfod:

- Y Cynghorydd Sir Jill Bond dros y Cynghorydd Sir Laura Wright
- Y Cynghorydd Sir Alistair Neill dros y Cynghorydd Sir Tomos Dafydd Davies

### **2. Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd datganiadau buddiant.

### **3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2023.

### **4. Prosiect Chi sy'n Penderfynu**

Dywedodd y Rheolwr Democratiaeth Leol wrth yr Aelodau na fedrai Swyddogion oedd yn mynd i gyflwyno'r eitem fynychu oherwydd salwch a chytunodd y Cadeirydd i wahodd y Swyddogion i'r cyfarfod nesaf.

### **5. Newidiadau i'r fformat o gofnodion**

Cyflwynodd y Rheolwr Democratiaeth Leol yr eitem sy'n gofyn i Aelodau ystyried y newidiadau i ffurf y cofnodion ar gyfer pwyllgorau fel eu bod mewn ffurf tebyg i'r hyn a gyflwynwyd ar gyfer y Cyngor llawn

<https://www.youtube.com/live/jvPBazOBYjM?feature=shared&t=109>

Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r newidiadau i ffurf y cofnodion a rhoi cysondeb ar draws pob pwyllgor.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### **Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 9fed Hydref, 2023 at 2.00 pm**

Wrth wneud hynny, cytunodd Aelodau y byddai'r Pwyllgor yn adolygu'r ffurf mewn 12 mis i sicrhau ei fod yn effeithiol a hygyrch ar gyfer cynghorwyr yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd. Fe wnaethom hefyd nodi'r cyfle i Gadeiryddion Craffu gyflwyno eu sylwadau i'r adolygiad.

#### **6. Sianel Timau Aelodau a'r Sgyrsfot**

Rhoddodd y Rheolwr Democratiaeth Leol ddiweddariad ar sianel Teams Aelodau a'r sgyrsfot ers y diweddariad blaenorol.

<https://www.youtube.com/live/jvPBazOBYjM?feature=shared&t=2497>

Nododd Aelodau y newidiadau a wnaed i sianel Teams Aelodau a'r Sgyrsfot.

Cytunwyd y caiff dolen i sianel Teams Aelodau ei ymestyn i'r holl Gynghorwyr Sir gyda manylion gan y Rheolwr Democratiaeth Leol ar sut i gael mynediad iddo a'i ddefnyddio. Byddir yn dod ag adroddiad cynnydd i'r cyfarfod nesaf.

#### **7. Ymweliad Safle Allweddol - Llafar**

Rhoddodd y Rheolwr Democratiaeth Leol ddiweddariad llafar am drefnu taith o'r Sir a safleoedd allweddol ar gyfer Aelodau.

<https://www.youtube.com/live/jvPBazOBYjM?feature=shared&t=2741>

Cytunodd Aelodau y dylid rhannu'r daith dros nifer o ddyddiau i gynnwys safleoedd allweddol ym mhob rhan o'r Sir. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Democratiaeth Leol yn cydlynu gyda'r Cadeirydd i ddynodi safleoedd a dyddiadau posibl ar gyfer y daith.

#### **8. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 22ain Ionawr 2024**

Nodwyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyflwyno unrhyw eitemau ar gyfer eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

<https://www.youtube.com/live/jvPBazOBYjM?feature=shared&t=3273>

Awgrymodd y Cadeirydd gynnwys Rhestr o Gwynion a Chanmoliaeth i Aelodau ei nodi yn y cyfarfod nesaf.

**The meeting ended at 3.00 pm**